

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Aml-leoliad
a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes a dros Zoom
ar nos Iau 11 Tachwedd 2021 am 19.00**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan Cyng. Geraint Hughes a Evan Jones.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2021.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Twll yn y ffordd ger y Wern – Cadarnhawyd fod y twll oedd wedi ymddangos wedi gael ei drwsio gan Dŵr Cymru, ond derbyniwyd ebost gan y Cyng. Megan Tomos fod twll arall wedi ymddangos yn uwch i fyny. Y Clerc wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru, ond nodwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw hwn, y Clerc i cysylltu.

Cysylltiad Fibreoptig – y Clerc wedi holi am ddiweddariad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

Llyn Bryn – Y Clerc wedi cysylltu gyda Stad Penrhyn am y 3 bwlch, derbyniwyd ymateb gan Elis Jones mai efallai cyfrifoldeb Bryn Hall yw rhain. Nodwyd y Cyng. Kevin Williams mai cyfrifoldeb Stad Penrhyn yw rhain, y Clerc i ymateb.

Sedd Wag – Y Clerc wedi ail-hybysebu'r sedd wag, dim diddordeb hyd yn hyn.

Arwydd Maes y Groes – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am arwyddion newydd, nodwyd Cyngor Gwynedd fod dim archeb ar gyfer arwyddion stryd newydd wedi cael ei godi gennyn nhw ers 2019. Nodwyd eu bod yn dueddol o archebu arwyddion mewn "bulk" er mwyn cael pris cystadleuol. Cadarnhawyd y bydden nhw yn gael golwg ar y nifer o arwyddion sydd ar eu rhestr erbyn hyn, ac os oes digon yna fydden nhw yn archebu cyflenwad newydd. Dim diweddariad hyd yn hyn.

Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes – Y Clerc wedi danfon ebost at Cyngor Gwynedd i ofyn os oes modd cynnal archwiliad ar y safle, ac i ymestyn yr terfyn cyflymder ‘30’ i fyny ar y ffordd pasio Maes y Groes. Dim ymateb hyd yn hyn.

Tyfiant llwybr Cae Rhosydd – Y Clerc wedi hysbysu’r adran llwybrau. Y Cyngorwyr i weld os ydy’r gwaith wedi gael ei gwblhau.

Datblygiadau Bronnydd Isaf – Y Clerc wedi holi’r adran Gynllunio, dim ymateb hyd yn hyn.

Datblygiad Cae Rhosydd – Ni dderbyniwyd diweddariad hyd yn hyn, y Cyng. Jen Morris i holi Gareth Llwyd, Menter Iaith Dyffryn Ogwen.

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu â ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Yn dilyn ebost gan Glwb Pel Droed Seintiau Lleol Bangor yn holi os oes modd defnyddio Cae Pel Droed Talybont ar gyfer gemau, nid yw’r Cyngor wedi derbyn unrhyw ymateb, ac nad ydym yn siwr os yw’r Clwb wedi defnyddio’r cae. Y Clerc i holi’r cyn-gynghorydd Margaret Fernley. Y Clerc i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyng. Evan Jones ac Alun Thomas a’r Clerc. Y Clerc wedi holi’r contractwr Kehoe os oes modd gael un toriad arall cyn y gaeaf, dim ymateb hyd yn hyn.

Tyllau yn ngwaelod Allt Ty’n Hendre – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd – nodwyd y Cyng. Alun Thomas fod ychydig o’r gwaith wedi gael ei gwblhau.

Gwlau Cocos, Traeth Lafan – Nodwyd fod llawer o bobl wedi bod yn casglu cocos ar Draeth Lafan yn ddiweddar, ac eu bod yn defnyddio tir ffermio cyfagos fel toiled ac yn gadael golwg a ysbwriel ar ei holau. Y Clerc wedi hysbysu Llywodraeth Cymru.

Ffordd Llwyn Bleddyn – nodwyd gan y Cyng. Dafydd Jones yn ein cyfarfod diwethaf fod angan ymestyn y llinellau melyn ac rhoid drych ar y ffordd gyferbyn a llwybr Lon Bach Odro – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

Coedwig Braichmelyn – Derbyniwyd cwyn gan ffermwr lleol fod defaid yn dianc o’r goedwig oherwydd fod ffensys wedi gael ei difrodi – y Clerc wedi hysbysu’r adran goedwigaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru, dim ymateb hyd yn hyn.

Arwyddion llwybrau Tyddyn Du – Cadarnhawyd Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd ei fod am cysylltu a’r ffermwr i drafod.

Fan wedi parcio ger Giât Mynydd – Y Clerc wedi hysbysu’r Heddlu. Heddlu wedi bod i weld y perchennog, gan obeithio ni fydd yn parcio yma eto.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

North Wales Fencing	Trwsio ffens cae chwarae Talybont	£87.60
Un Llais Cymru	Hyfforddiant – Cyng. Lowri Evans	£50.00
Julian Johnson	Torri Gwair – Hydref a Tachwedd	£230.00

Y Clerc wedi dod a’r mandad cywir i’r cyfarfod – y Cyng. Jen Morris a Dafydd Jones i arwyddo yn ystod y cyfarfod. Y Clerc i ddanfon y mandad cyn gynted a phosib.

6. Y Mynydd

Y Clerc wedi paratoi a danfon y llythyrau hawliau pori fel yr oedd ar y rhestr a gafodd ei awdurdodi gan yr is-bwyllgor. Y Clerc i ddanfon y rhestr taliadau i Gaerfyrddin. Yn anffodus, nodwyd fod y Clerc wedi derbyn llythyr ymddiswyddiad gan y bugail. Nodwyd fod y Cyngor yn drist iawn ei weld yn mynd ac fydd chwith ar ei ôl, ond yn deall ei

sefyllfa. Penderfynwyd danfon llythyr ato i ddiolch am ei holl waith caled yn cadw trefn ar y Mynydd dros yr 18 mlynedd diwethaf. Penderfynwyd bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod cyngor llawn i drafod y materion y Mynydd yn y flwyddyn newydd.

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Llechi Cymru – Fforwm Cymunedol Llechi Cymru – penderfynwyd bydd y Clerc yn holi Cyng. Geraint Hughes i weld os oes ganddo ddiddordeb i gynrychioli'r Cyngor ar y fforwm, a'r Cyng. Jen Morris i ddiprwyo.

Cyflwynwyd – Howard Huws, Cylch yr Iaith - Strategaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyd-destun ei ymateb i'r cynnydd eithriadol yn nifer ymwelwyr i gyrchfannau'r Parc a'u heffaith ar gymunedau lleol a'r amgylchedd naturiol – Penderfynwyd bydd y Cyngor yn danfon llythyr at y Parc i ddatgan ein bod yn cefnogi sylwadau Cylch yr Iaith.

Cyflwynwyd: Chris Roberts, GwyrddNi – Penderfynwyd gwahodd Chris i'r cyfarfod nesaf.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Bwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen – Nodwyd fod y Cyng. Geraint Hughes wedi mynychu'r cyfarfod hwn.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0475/21/AC

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim.

10. Materion Brys

Lon Goed – Adroddwyd fod y coed o troiad Coetmor lawr at Afon Llan angen ei dorri – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Biniau halen – Aelodau i gadw llygaid ar biniau halen ac i ddanfôn rhestr o’r rhai sydd angen ei llenwi.

Pant Bowls – Adroddwyd fod un darn o’r ffordd yn dal llawer iawn o ddŵr ar adegau o law trwm, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Bont bach – Nodwyd fod yr bont bach dros y nant ger Sychnant angen sylw, penderfynwyd y bydd y Cyng. Kevin Williams mynd i gael golwg arno ac adrodd yn ôl i’r Cyngor.

Llwybrau – Nodwyd y Cyng. Megan Tomos fod llwybr Tanymarian heb gael llawer o sylw gan y contractwyr eleni, y Clerc i holi’r cyn-cynghorydd Margaret Fernley am y trefniadau blynyddol, ac i gael gwell trefn ar gyfer y flwyddyn nesaf.